| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **16 GORFFENNAF 2015** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2014/15** |
| PWRPAS: | **Mae'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor** |
| ARGYMHELLIAD**:** | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

**Crynodeb Gweithredol**

Yn ystod 2014/15 arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol, £411,020 oedd cyfanswm y llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau sydd yn uwch na'r £319,860 oedd yn y gyllideb. Nid oedd unrhyw fanciau yr oedd y Cyngor wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu â thalu.

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

Cafodd Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys ei fabwysiadu gan y Cyngor hwn ar 1 Mawrth 2011 ac mae'r Cyngor hwn yn cydymffurfio'n llawn â'i ofynion. Mae'r Côd yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn yr hyn a oedd yn ddisgwyliedig. Ystyrir mai'r Pwyllgor Archwilio yw'r corff priodol i ystyried yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad yma yn cymharu ein gwir berfformiad ar gyfer 2014/15 yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd ym mis Chwefror 2014 ar gyfer y flwyddyn ariannol a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2014 a gellir ei weld ar - https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau.aspx?pwyllgor=/2013-14/Cyngor Llawn_Full Council/2014-03-06

Edrycha'r adroddiad ar:

- y cefndir economaidd;
- y gofyn benthyca a rheoli dyledion;
- gweithgarwch buddsoddi; â
- chydymffurfiaeth â Dangosyddion Darbodus.

Mae'r adroddiad yma yn cyflawni dyletswydd y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i gymryd ystyriaeth o Gôd CIPFA ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli symiau sydd wedi cael eu buddsoddi a'r effaith refeniw o newidiadau mewn cyfraddau llog. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risg yn ganolog i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

## 2. Y Cyd-destun Allanol

**Twf a Chwyddiant:** Yn 2014, cafodd cyflymder cadarn twf GDP (3%) ei ategu gan sector gwasanaethau bywiog. Bu i gyfraniadau positif y sectorau cynhyrchu ac adeiladu ychwanegu ato hefyd. Ychwanegodd prisiau tai ailgyfodol, cwsmeriaid fwy hyderus a gwerthiant iach at ragolwg positif i economi'r DU, o gofio rôl bwysig y cwsmer mewn gweithgarwch economaidd.

Disgynodd chwyddiant blynyddol CPI i sero ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2015, sy'n ostyngiad o 1.6% o'r flwyddyn gynt. Prif yrrwr hyn oedd y gostyngiad mewn pris olew (a ostyngodd i $44.35 y gasgen; lefel na welwyd ers mis Mawrth 2009) a chwymp serth mewn prisiau ynni cyfanwerthol, gyda momentwm disgynnol ychwanegol yn dod o gystadlu rhwng archfarchnadoedd, a arweiniodd at brisiau bwyd is. Ysgrifennodd Mark Carney, Llywodraethwr Banc Lloegr, lythyr agored i'r Canghellor ym mis Chwefror, a oedd yn egluro fod y Banc yn disgwyl i CPI droi'n negatif dros dro, cyn codi'n ôl oddeutu diwedd 2015 wrth i'r prisiau is gael eu tynnu allan o gyfrifiad y gyfradd flynyddol.

**Y Farchnad Lafur:** Bu i farchnad lafur y DU barhau i wella, ac mae'n parhau'n wydn ar draws ystod eang o fesurau gan gynnwys gwir gyfraddau twf cyflog. Gwelwyd prif gyfradd cyflogaeth o 73.3% ym mis Ionawr 2015, tra cwympodd y gyfradd ddiweithdra i 5.7% o 7.2% flwyddyn ynghynt. O gymharu'r tri mis hyd at mis Ionawr 2015 gyda 2014, cynyddodd cyflog gweithwyr 1.8% yn cynnwys taliadau bonws ac 1.6% yn eithrio taliadau bonws.

**Polisi Ariannol y DU:** Cadwodd MPC Banc Lloegr y gyfradd llog yn 0.5% a chadwyd y pryniant asedau (QE) yn £375bn. Mynegwyd ystod eang o sylwadau gan ei aelodau ar yr ymateb i chwyddiant CPI sero, ond yn yr un modd ag ychydig flynyddoedd ynghynt pan oedd yr MPC yn fodlon diystyru'r pigau chwyddiant dros dro o bron i 5%, roeddynt yn credu y byddai'n well peidio â phoeni am roi ymateb sydyn i'r lefel chwyddiant isel bresennol. Roedd cofnodion cyfarfodydd yr MPC yn ategu barn y Pwyllgor; bod rhwystrau economaidd i economi'r DU ac etifeddiaeth yr argyfwng ariannol yn golygu mai araf a chyfyngedig fyddai unrhyw gynnydd yn y Gyfradd Banc, a hynny'n is na lefelau cyfartalog hanesyddol.

Cafodd ansicrwydd gwleidyddol effaith fawr ar hyder y farchnad y flwyddyn hon. Roedd marchnadoedd ariannol yn pryderu ynglŷn â'r posibilrwydd y byddai'r Alban yn cael annibyniaeth, fodd bynnag diddymwyd y pryder hyn yn dilyn canlyniad refferendwm mis Medi. Mae perygl o chwalfa (yr addewid i ddatganoli pwerau eang i lywodraeth yr Alban; AS Lloegr felly yn galw am gyfreithiau ar wahân i Loegr) yn dal i fodoli. Ysgogodd Cyllideb mis Mawrth, a oedd yn wleidyddol iawn, ddechrau ymgyrch etholiad cyffredinol agos iawn, a gwelwyd marchnadoedd yn paratoi am senedd grôg eto.

Ar y cyfandir, gostyngodd Banc Canolog Ewrop ei gyfradd llog meincnodol swyddogol o 0.15% i 0.05% ym mis Medi, a chafodd y cyfraddau a delir ganddo ar falansau banc masnachol hefyd eu newid o -0.10% i -0.20%. O'r diwedd, cyhoeddwyd y lliniaru meintiol (QE) disgwyliedig, fyddai'n ymestyn mantolen y BCE o €1.1triliwn, gan y banc canolog yn ei gyfarfod ym mis Ionawr er mwyn ceisio llywio ardal yr ewro rhag ddadchwyddiant a grymuso ei heconomïau marwaidd. Roedd y maint ar ochr uchel disgwyliadau'r farchnad, a bydd yn golygu prynu gwerth €60bn o fondiau sofran, gwarantau a gefnogir gan asedau a bondiau diogel pob mis o fis Mawrth 2015 hyd at fis Medi 2016. Ni giliodd y posibilrwydd y byddai Groeg yn gadael Ardal yr Ewro o gofio'r rhwystredigaethau clir oedd yn bodoli rhwng ei llywodraeth newydd a'i chredydwyr.

Gwelwyd gwrthnaid sylweddol yn economi'r UD yn 2014, roedd twf cyflogaeth yn gadarn ac roedd arwyddion o bwysau cyflog yn codi, er bod y pwysau hwn yn dod o lefel isel. Ni wnaeth y Gronfa Ffederal unrhyw newid i gyfraddau polisi'r UD. Fodd bynnag, bu i'r banc canolog barhau i 'leihau'n raddol', h.y. gostyngiad mewn pryniant asedau o $10 biliwn pob mis, cyn eu diddymu'n gyfan gwbl ym mis Hydref 2014. Gan fod economi'r UDA yn ddigon gwydn i oroesi gwendidau ei brif bartneriaid masnachu a fod y ddoler UD yn gryf, ym mis Mawrth 2015 bu i'r Ffed dynnu'r gair *"patient"* o'i ddatganiad oedd ynghlwm â'i benderfyniadau ar gyfraddau, mwy neu lai felly yn croesawu'r posibilrwydd o gynnydd mewn cyfraddau tua diwedd y flwyddyn.

**Ymateb y farchnad**: O fis Gorffennaf ymlaen, cafodd enillion gilt eu gyrru'n is gan gyfuniad o ffactorau: peryglon daear-wleidyddol yn deillio o'r Dwyrain Canol a'r Wcráin, y duedd am ddadchwyddiant yn Ardal yr Ewro, a'r gostyngiad mawr ym mhris olew a'i symudiad i brisiau is yn rhyngwladol. Gostyngodd enillion gilt 5-, 10- a 20-mlynedd i'w lefelau isaf ym mis Ionawr (0.88%, 1.33% a 1.86% yn ôl eu trefn), cyn gorffen y flwyddyn yn uwch ar 1.19%, 1.57% a 2.14% yn ôl eu trefn.

**Y Cyd-destun Lleol**

Ar 31/03/15, roedd angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca er dibenion cyfalaf, a fesurir gan y Gofyn Benthyca Cyfalaf (CFR), yn £174.9m, tra bod y cronfeydd i'w defnyddio a'r cyfalaf gweithio, sef yr adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi, yn £119m.

Ar 31/03/15, roedd gan yr Awdurdod £113.7m o fenthyciadau a lesau, a £38.4m o fuddsoddiadau. Strategaeth gyfredol yr Awdurdod yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol.

Mae gan yr Awdurdod CFR fydd yn cynyddu dros y 2 flynedd i ddod oherwydd y rhaglen gyfalaf, a lefel sylweddol o fuddsoddiadau ac felly nid yw'n cynllunio benthyg yn ystod y cyfnod hwn.

**Strategaeth Fenthyca**

Ar 31 Mawrth 2015, roedd yr Awdurdod yn dal £111.3 miliwn o fenthyciadau (lleihad o £1.1m ar 31 Mawrth 2014) fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf blynyddoedd blaenorol.

Prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca arian yw cael cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd cost yn ystod y cyfnod y mae angen yr arian gyda'r hyblygrwydd i ail negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid yr ail amcan.

Erys fforddiadwyedd â'r "gost cario" yn ddylanwadau pwysig ar strategaeth fenthyca'r Cyngor yn ogystal â'r ystyriaeth, o ran unrhyw fenthyca a wnaed cyn bod angen yr arian, y byddai'n rhaid buddsoddi'r elw yn y marchnadoedd arian ar raddfa llog gymharol is na chost y benthyciad. Gan fod llog tymor byr wedi aros yn is na'r cyfraddau tymor hir, ac yn debygol o aros lle maent am o leiaf y ddwy flynedd nesaf, penderfynodd yr Awdurdod ei bod yn fwy cost effeithiol yn y tymor byr i ddefnyddio adnoddau mewnol yn eu lle.

Cafodd buddion benthyca mewnol eu monitro’n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthyca tan y dyfodol, pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi. Mae Arlingclose yn cynorthwyo’r Awdurdod gyda’r ‘gost cario’ a’r dadansoddiad elw.

## 3. Gweithgareddau Benthyca yn 2014/15

| | **Balans ar 01/04/14 £’000** | **Benthyciadau Newydd £’000** | **Dyledion Aeddfed £’000** | **Trosglwyddo i Tymor Byr £’000** | **Balans ar 31/03/15 £’000** | **Cyfradd cyfartaledd %** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) | 173,309 | | | | 174,889 | |
| Benthyca Tymor Byr | 1,193 | 0 | (1,193) | 214 | 214 | 5.74 |
| Benthyca Tymor Hir | 111,215 | 106 | 0 | (214) | 111,107 | 5.73 |
| **CYFANSWM BENTHYCIADAU** | **112,408** | **106** | **(1,193)** | **0** | **111,321** | **5.73** |
| Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | 2,484 | 0 | (112) | 0 | 2,372 | 6.17 |
| **CYFANSWM DYLEDION ALLANOL** | **114,892** | **106** | **(1,305)** | **0** | **113,693** | **5.74** |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Benthyca £m | | | | | (1,199) | |

LOBOs: Mae gan yr Awdurdod £16.2m o fenthyciadau LOBO (*Lender’s Option Borrower’s Option*) lle mae gan y sawl sy’n rhoi’r benthyciad y dewis i gynnig cynnydd yn y gyfradd llog ar ddyddiadau penodedig, a bydd gan yr Awdurdod wedyn y dewis o un ai dderbyn y gyfradd newydd neu ad-dalu’r ddyled heb unrhyw gost ychwanegol.

Aildrefnu Dyledion:
Arhosodd y taliad premiwm ar gyfer ad-dalu’r ddyled PWLB yn gynnar yn weddol ddrud am y benthyciadau ym mhortffolio’r Awdurdod ac felly roedd y sefyllfa yn anneniadol ar gyfer gweithgarwch aildrefnu dyledion. O ganlyniad, ni wnaethpwyd unrhyw weithgarwch aildrefnu.

Mae newidiadau yn y portffolio dyledion dros y flwyddyn wedi llwyddo i leihau lefel y benthyca ynghyd â lleihau’r risg credyd drwy ad-dalu’r benthyciadau o’r balansau buddsoddi.

**Diddymu’r PWLB:** Ym mis Ionawr 2015, cadarnhaodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol y byddai Trysorlys ei Mawrhydi (HMT) yn cymryd y camau angenrheidiol i ddiddymu’r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae HMT wedi cadarnhau na fydd effaith ar ei swyddogaeth fenthyca, a bydd gan awdurdodau lleol fynediad i gyfraddau benthyca sy'n cynnig gwerth da am arian. Bwriad yr awdurdod yw defnyddio olynydd PWLB fel ffynhonnell fenthyca bosib os oes angen.

## 4. Gweithgarwch Buddsoddi

Mae'r Awdurdod wedi dal cronfeydd sylweddol sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwariant ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod 2014/15, amrywiodd balansau buddsoddi'r Awdurdod rhwng £45.3 a £77.6 miliwn.

Mae Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i sefydlogrwydd a hylifedd a nôd yr Awdurdod ydi sicrhau enillion sy'n gymesur â'r egwyddorion hyn.

| **Buddsoddiadau** | **Balans ar 01/04/14 £'000** | **Buddsoddiadau a wnaed £'000** | **Aeddfediadau / Buddsoddiadau a werthwyd £'000** | **Ailbrisio i Werth Teg £'000** | **Balans ar 31/03/15 £'000** | **Cyfradd cyfartaledd %** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrifon Galw gyda Banciau gyda cyfraddau A- neu uwch – tymor byr | 20,825 | 157,650 | (160,055) | 0 | 18,420 | 0.47 |
| Buddsoddiadau gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu gyda cyfraddau A- neu uwch – tymor byr | 27,000 | 52,597 | (42,595) | 0 | 37,002 | 0.78 |
| Bond wedi ei warantu Cymdeithas Adeiladu – tymor hir | 0 | 1,088 | 0 | 33 | 1,121 | 0.45 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 0 | 89,796 | (89,796) | 0 | 0 | 2.09 |
| **CYFANSWM BUDDSODDIADAU** | **47,825** | **301,131** | **(292,446)** | **33** | **56,543** | |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Buddsoddiadau £m | | | | | 8,718 | |

Roedd diogelwch y buddsoddiad yn parhau i fod yn brif amcan buddsoddi i'r Awdurdod. Cafodd hyn ei gynnal drwy ddilyn polisi gwrthbarti'r Awdurdod sydd wedi'i nodi yn ei Ddatganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2014/15.

Cafodd ansawdd credyd gwrthbartïon ei asesu a'i fonitro gan yr Awdurdod drwy gyfeirio at statws credyd (isafswm y statws credyd tymor hir ar gyfer gwrthbartïon oedd A- ar draws asiantaethau statws credyd Fitch, S&P a Moody's), amnewid diffyg credyd (*credit default swaps*), datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gefnogaeth llywodraeth dichonadwy, ac adroddiadau yn y wasg ariannol o ansawdd.

## Risg Credyd

Mae ansawdd credyd gwrthbartion a fesurir gan statws credyd yn cael eu crynhoi isod:

| Dyddiad | Cyfartaledd Pwysol Gwerth – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Pwysol Gwerth – Statws Credyd | Cyfartaledd Pwysol Amser – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Pwysol Amser – Statws Credyd | Cyfartaledd y cyfnod (diwrnodau) |
|---|---|---|---|---|---|
| 31/03/2014 | 5.69 | A | 5.80 | A | 102 |
| 30/06/2014 | 5.19 | A+ | 5.12 | A+ | 139 |
| 30/09/2014 | 5.01 | A+ | 3.21 | AA | 118 |
| 31/12/2014 | 5.39 | A+ | 3.49 | AA | 148 |
| 31/03/2015 | 5.24 | A+ | 3.62 | AA- | 64 |

*Sgorio:*
*-Mae cyfartaledd pwysol gwerth yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint y blaendal.*
*-Mae cyfartaledd pwysol amser yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd y blaendal.*
*-AAA = ansawdd credyd uchaf = 1*
*- D = ansawdd credyd isaf = 26*
*-Nôd = A- neu statws credyd uwch, gyda sgor o 7 neu is, i adlewyrchu'r dull Buddsoddi presennol gyda'r prif focws ar ddiogelwch.*

## Diweddariad Gwrthbartion

Cymeradwyodd Senedd Ewrop yr *EU Bank Recovery and Resolution Directive (BRRD)* ar 15 Ebrill, 2014. Rhoddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd y byddai'r gefnogaeth arbennig gan y llywodraeth i ddalwyr bondiau ansicredig uwch y banciau yn debygol o leihau, yn 2014-15 bu i Moody's adolygu Rhagolwg sawl banc yn y DU ac yn yr UE o Sefydlog i Negatif (noder nad yw hyn yr un fath ag adolygiad graddio negatif (*rating review negative*), a bu i S&P roi banciau'r DU a'r Almaen ar *Credit Watch* gyda goblygiadau negatif, wedi i'r gwledydd hyn fabwysiadu trefn *bail-in* y BRRD yn gynnar.

Yn yr un modd, adolygodd S&P ei Ragolygon ar gyfer banciau mawr Canada i negatif yn dilyn cyhoeddiad y llywodraeth am y posibilrwydd o fframwaith polisi *bail-in*.

Cyhoeddodd Banc Lloegr ei agwedd at ddatrysiad banc oedd yn dynodi sut y byddai lleihau rhwymedigaethau banc sy'n methu, yn gweithio'n ymarferol. Bydd Banc Lloegr yn gweithredu os yw banc, yn ei farn ef, yn methu, neu'n debygol o fethu, ac nid yw'n debygol y bydd datrysiad sector preifat llwyddiannus megis trosfeddiannu neu ddyroddi cyfandaliadau; nid oes angen i fanc fod yn dechnegol fethdaliadol (gyda'i rwymedigaethau'n fwy na'i asedau) cyn i ymyrraeth reoleiddiol ddigwydd, megis *bail-in.*

Effaith gyfunol y BRRD a *Deposit Guarantee Scheme Directive* y DU (DGSD) yw hyrwyddo ernesau unigolion a busnesau bach a chanolig dros ernesau awdurdodau cyhoeddus, corfforaethau mawr a sefydliadau ariannol. Disgwylir i wledydd eraill yr UE, a phob gwlad datblygedig arall fabwysiadu dulliau tebyg yn y pen draw.

Ym mis Rhagfyr, bu i Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) y Banc ymgymryd â phrofion straen ar wyth sefydliad ariannol yn y DU, i asesu eu gwydnwch i sioc dwys yn y farchnad dai ac i gynnydd mawr mewn cyfraddau llog, ac i ymdrin â pheryglon i sefydlogrwydd ariannol y DU. Cafodd *Lloyds Banking Group* a *Royal Bank of Scotland* eu hadnabod fel sefydliadau a basiodd y profion, ond a oedd mewn perygl petai 'dirywiad economaidd sylweddol' yn digwydd. Mae *Lloyds Banking Group* [mae ei fanciau cyfansoddiadol ar restr fenthyg yr Awdurdod] yn cymryd camau i ychwanegu cyfalaf ac nid yw'r PRA yn gofyn i'r grŵp gyflwyno cynllun cyfalaf diwygiedig. Nid yw RBS ar restr

fenthyca'r Awdurdod ar gyfer buddsoddiadau, ond mae wedi diweddaru cynlluniau i gyhoeddi cyfalaf Haen 1 ychwanegol. Bu i *The Co-operative Bank* fethu'r prawf.

Yn ogystal, cyhoeddodd Banc Canolog Ewrop ganlyniadau'r Arolwg Ansawdd Asedau (AQR) a phrofion straen, a oedd yn seiliedig ar ddata mis Rhagfyr 2013. Methodd 25 o fanciau Ewropeaidd y prawf, gan fethu â chyrraedd y trothwy cyfalaf gofynnol o gyfanswm o oddeutu €25bn (£20bn) - nid oedd unrhyw un o'r banciau a fethodd ar restr fenthyca'r Awdurdod.

Ym mis Hydref, yn dilyn symudiadau sydyn mewn arwyddion y farchnad a yrrwyd gan ddirwyiad yn y rhagolygon twf rhyngwladol, yn enwedig yn Ardal yr Ewro, bu i Arlingclose gynghori gostyngiad mewn cyfyngiadau cyfnodau buddsoddi ar gyfer buddsoddiadau banc a chymdeithasau adeiladu anwarantedig i atal argyfwng dyrys arall yn Ardal yr Ewro. Cafodd cyfnodau buddsoddiadau newydd anwarentedig gyda rhai sefydliadau'r DU eu gostwng ymhellach i 100 diwrnod ym mis Chwefror 2015.

Mae gwahardd 'bail-outs', cyflwyno 'bail-ins', a'r ffafriaeth roddir i nifer fawr o adneuwyr ar wahân i awdurdodau lleol yn golygu fod y peryglon o wneud adneuon anwarantedig yn cynyddu'n gymharol ag opsiynau buddsoddi eraill. Felly, mae'r Awdurdod wedi dechrau defnyddio opsiynau buddsoddi gwarantedig fwyfwy neu ddewisiadau arall megis bondiau wedi eu gwarantu, yn ogystal a ernesau banc a chymdeithasau adeiladu anwarantedig. Yn gyffredinol gwnaethpwyd ernesau dros gyfnodau byr er mwyn lleihau'r risg. Mae defnydd opsiynau gwarantedig gan gynnwys buddsoddiadau y tu allan i'r banc a chronfeydd wedi'u cyfuno yn ogystal a bondiau wedi eu gwarantau yn debyg i gynyddu er mwyn lleihau'r risg o golled.

**Amcangyfrif Incwm ac Alldro**

Roedd y balansau arian cyfartalog yn £63.5m yn ystod y flwyddyn. Mae Cyfradd Banc y DU wedi cael ei gynnal ar 0.5% ers Mawrth 2009. Mae cyfraddau byrdymor y farchnad arian wedi parhau ar lefelau cymharol isel. Gwnaed adneuon newydd ar gyfradd gyfartalog o 0.78%. Cynhyrchodd buddsoddiadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian gyfraddau cyfartalog o 0.45%.

Ar gyfer y flwyddyn, cyllidebodd yr Awdurdod am incwm buddsoddi 0.32m. Alldro am incwm buddsoddi oedd £0.41m am y flwyddyn.

**Diweddariad ynglŷn â'n Buddsoddiadau ym Manc Heritable**

Bellach, mae'r awdurdod wedi adennill 94% o'i fuddsoddiadau ym manc Heritable. Mae'n debygol y bydd dosraniadau pellach a dylid adenill y swm llawn. Mae amseriad dosraniadau yn y dyfodol yn aneglur ac yn dibynnu ar setliad yr achos llys sy'n parhau. Derbyniwyd rhybudd y bydd taliad difidend ym mis Awst 2015 ond nid yw'r swm yn hysbys eto.

## 5. Cydymffurfiaeth gyda'r Dangosyddion Darbodus

Gall y Cyngor gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'i **Ddangosyddion Darbodus** ar gyfer 2014/15, a gymeradwywyd ar 6 Mawrth 2014 fel rhan o Ddatganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

**Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei ddatguddiad i risgiau rheolaeth trysorlys gan defnyddio'r mesuryddion dilynol.

**Datguddiad Cyfraddau Llog:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i risg cyfraddau llog. Bydd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd, yn:

| | **2014/15** | **2015/16** | **2016/17** |
|---|---|---|---|
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Sefydlog** | 100% | 100% | 100% |
| Uchafswm yn ystod y flwyddyn | | | |
| Cydymffurfio â'r Terfynau: | Ydi | Ydi | Ydi |
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Cyfnewidiol** | 50% | 50% | 50% |
| Uchafswm yn ystod y flwyddyn | | | |
| Cydymffurfio â'r Terfynau: | Ydi | Ydi | Ydi |

**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog:** Mae'r dangosydd hwn wedi ei osod i reoli datguddiad yr Awdurdod i risg ail-ariannu. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfardd sefydlog yn:

| **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog** | **Terfyn Uchaf %** | **Terfyn Isaf %** | **Gwir Fenthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar 31/03/15 £'000** | **Canran y Benthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar 31/03/15 %** | **Cydymffurfio â'r Terfynau a Osodwyd?** |
|---|---|---|---|---|---|
| dan 12 mis | 25% | 0% | **214** | 0.2 | Ydi |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% | **1,981** | 1.8 | Ydi |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% | **20,857** | 18.7 | Ydi |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% | **11,450** | 10.3 | Ydi |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 100% | 0% | **34,003** | 30.5 | Ydi |
| 20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd | 100% | 0% | **15,464** | 13.9 | Ydi |
| 30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd | 100% | 0% | **0** | 0.0 | Ydi |
| 40 mlynedd ac uwch | 100% | 0% | **27,352** | 24.6 | Ydi |

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf bob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfeddu benthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr ofyn am ad-daliad. Mae benthyciad LOBO y Cyngor wedi ei gynnwys yn y categori '24 mis ac o fewn 5 mlynedd' uchod.

**Symiau a fuddsoddir am gyfnod hwy na 364 diwrnod:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad i'r risg o golled allai godi os yw'r Cyngor yn gorfod ceisio ad-daliad cynnar o'r symiau a fuddsoddwyd. Y cyfyngiadau ar gyfanswm y gellir buddsoddi gyda aeddfedrwydd heibio diwedd y cyfnod fydd:

| | **Awdurdodwyd 31/03/15 £m** | **Adolygwyd 31/03/15 £m** | **Gwir 31/03/15 £m** | **Awdurdodwyd 31/03/16 £m** | **Awdurdodwyd 31/03/17 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **30.0** | **30.0** | **1.1** | **20.0** | **10.0** |

**Diogelwch**: Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartaledd pwysol amser ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i pwysoli yn ôl maint pob buddsoddiad.

| | **Targed** | **Gwir** |
|---|---|---|
| Portffolio sgôr credyd cyfartalog | 6.0 | 5.24 |

Yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA, mae'r adroddiad hwn yn darparu adroddiad cryno i aelodau ar weithgarwch rheolaeth trysorlys yn ystod 2014/15. Nid oes unrhyw un o'r Dangosyddion Darbodus wedi'u torri a defnyddiwyd dull darbodus o ran gweithgarwch buddsoddi gan roi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd dros enillion.

Hefyd, gall yr Awdurdod gadarnhau yn ystod 2014/15, y cydymffurfiodd â'i **Ddatganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys** ac **Arferion Rheolaeth Trysorlys.**

## 6. Hyfforddiant Buddsoddi

Caiff anghenion staff rheolaeth trysorlys yr Awdurdod am hyfforddiant mewn rheolaeth buddsoddi eu hasesu bob blwyddyn fel rhan o'r broses gwerthuso staff, ac yn ychwanegol i hynny pan fydd cyfrifoldebau aelodau staff unigol yn newid.

Yn ystod 2014/15, mynychodd staff gyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau wedi'u darparu gan Arlingclose a CIPFA.

**ATODIAD 1**

**Dangosyddion Darbodus**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Awdurdod roi ystyriaeth i Gôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Côd Darbodus) wrth bennu faint o arian y gall fforddio ei fenthyg. Amcanion y Côd Darbodus yw sicrhau, o fewn fframwaith clir, fod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, ac y gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn unol ag arfer proffesiynol da. Er mwyn dangos bod yr Awdurdod wedi bodloni'r amcanion hyn, mae'r Côd Darbodus yn gosod y dangosyddion a ganlyn, ac mae'n rhaid eu gosod a'u monitro'n flynyddol.

**Amcangyfrifon Gwariant Cyfalaf:** Gellir crynhoi cynlluniau gwariant cyfalaf a chyllido'r Awdurdod fel hyn:

| Gwariant Cyfalaf | Awdur-dodwyd 31/03/15 £m | Adolygwyd 31/03/15 £m | Gwir 31/03/15 £m | Amcan-gyfrif 31/03/16 £m | Amcan-gyfrif 31/03/17 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **General Fund** | **35.6** | **41.3** | **32.4** | **38.4** | **16.9** |

| Gwariant a Chyllido Cyfalaf | Awdur-dodwyd 31/03/15 £m | Adolygwyd 31/03/15 £m | Gwir 31/03/15 £m | Amcan-gyfrif 31/03/16 £m | Amcan-gyfrif 31/03/17 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Derbyniadau cyfalaf | 1.2 | 1.9 | 1.9 | 1.5 | 0.0 |
| Grantiau'r Llywodraeth | 12.8 | 21.3 | 15.5 | 12.9 | 4.3 |
| Cyfraniadau Refeniw | 9.5 | 7.5 | 6.4 | 11.2 | 1.2 |
| Benthyca wedi'i gefnogi | 4.1 | 4.1 | 4.1 | 6.6 | 6.6 |
| Benthyca Darbodus | 8.0 | 6.5 | 4.5 | 6.2 | 4.8 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **35.6** | **41.3** | **32.4** | **38.4** | **16.9** |

**Amcangyfrifion Gofyn Cyllido Cyfalaf**
Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca at ddibenion cyfalaf.

| Gofyn Cyllido Cyfalaf | Awdur-dodwyd 31/03/15 £m | Adolygwyd 31/03/15 £m | Gwir 31/03/15 £m | Amcan-gyfrif 31/03/16 £m | Amcan-gyfrif 31/03/17 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | 173.7 | 175.2 | 174.9 | 179.5 | 185.1 |

Rhagwelir y bydd y CFR yn cynyddu o £10.2m dros y tair blynedd nesaf wrth i wariant cyfalaf a ariannir trwy ddyled fod yn fwy na'r adnoddau a roddwyd o'r neilltu i ad-dalu'r ddyled.

**Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf:** Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y bydd y ddyled dros y tymor canolig, dylai'r Awdurdod sicrhau nad yw'r ddyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyn cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyn cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hwn yn ddangosydd allweddol o ba mor ddarbodus yw rhywbeth.

| **Dyled** | **Awdurdodwyd 31/03/15 £m** | **Gwir 31/03/15 £m** | **Amcangyfrif 31/03/16 £m** | **Amcangyfrif 31/03/17 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | 195.0 | 111.3 | 111.1 | 109.1 |
| Lesau Cyllidol | 0.0 | 2.4 | 2.3 | 2.1 |
| **Cyfanswm Dyled** | **195.0** | **113.7** | **113.4** | **111.2** |
| **Benthycwyd mwy na'r CFR?** | Na | Na | Na | Na |

Disgwylir y bydd cyfanswm y ddyled yn aros islaw'r CFR yn ystod y cyfnod rhagweld.

Mae gwir lefelau'r ddyled yn cael eu monitro yn erbyn y Ffin Weithredol a'r Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol isod.

Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol: Mae'r Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol yn seiliedig ar amcangyfrif yr Awdurdod o'r sefyllfa fwyaf tebygol h.y. darbodus, ar gyfer dyledion allanol, yn hytrach na'r sefyllfa waethaf bosib.

| **Ffin Weithredol** | **2014/15 £'000** | **2015/16 £'000** | **2016/17 £'000** |
|---|---|---|---|
| Benthyca | **175,000** | **175,000** | **175,000** |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **175,000** | **175,000** | **175,000** |

Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol yw'r terfyn benthyca fforddiadwy a bennir yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003. Dyma'r uchafswm all yr Awdurdod fod mewn dyled yn gyfreithiol. Mae'r terfyn awdurdodedig yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol uwchlaw'r ffin weithredol ar gyfer symudiadau arian anarferol.

| **Authorised Limit** | **2014/15 £m** | **2015/16 £m** | **2016/17 £m** |
|---|---|---|---|
| Borrowing | **195,000** | **195,000** | **195,000** |
| Other long-term liabilities | **0** | **0** | **0** |
| **Total Debt** | **195,000** | **195,000** | **195,000** |

### Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net

Dangosydd yng nghyswllt fforddiadwyedd yw hwn, ac mae'n amlygu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig drwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido llai incwm o fuddsoddiadau.

| Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net | Awdur-dodwyd 31/03/15 % | Adolygwyd 31/03/15 % | Gwir 31/03/15 % | Amcan-gyfrif 31/03/16 % | Amcan-gyfrif 31/03/2017 % |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **5.34** | **5.34** | **5.08** | **5.68** | **5.81** |

### Mabwysiadu Côd Rheolaeth Trysorlys CIPFA

Mae'r dangosydd hwn yn dangos bod y Cyngor wedi mabwysiadu egwyddorion yr arferion gorau.

Mabwysiadodd y Cyngor *Gôd Rheolaeth Trysorlys CIPFA yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Côd Ymarfer 2011* yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2011.

**Dadansoddiad o'r Sgôr Credyd**

Sgorio:

| **Statws Credyd Tymor Hir** | **Sgôr** |
|---|---|
| AAA | 1 |
| AA+ | 2 |
| AA | 3 |
| AA- | 4 |
| A+ | 5 |
| A | 6 |
| A- | 7 |
| BBB+ | 8 |
| BBB | 9 |
| BBB- | 10 |

Mae'r gwerth cyfartalog pwysol yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint y buddsoddiad. Mae'r amser cyfartalog pwysol yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd y buddsoddiad.

Roedd y Cyngor yn anelu at sgôr o 7 neu is, er mwyn adlewyrchu'r flaenoriaeth or-redol am ddiogelwch yr arian a fuddsoddir a throthwy isaf cyfradd credyd A- ar gyfer gwrthbartion buddsoddi.